

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 16eg Rhagfyr 2020 gan gychwyn am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr J. Ball, B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, R. Turner a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

26. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

Hysbysodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James yr aelodau o ganlyniadau'r gystadleuaeth Ffenestri Nadolig.

27. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod y Cyngor - 18fed Tachwedd 2020 - Rhifau Cofnod 16-25

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn cofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Tachwedd 2020 - Rhifau Cofnod 8-10

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 2il Rhagfyr 2020 - Rhifau Cofnod 11-13

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

I'w cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 2il Rhagfyr 2020 - Rhifau Cofnod 7-14
a Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cymeradwyo ar gyfer gweithredu.

28. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (24ain Tachwedd ac 8fed Rhagfyr 2020)

Cyflenwr	Manylion y Cyflenwad	Rhif Taleb	Swm £
Sioned Graham-Cameron	Gwasanaethau Cyfieithu	1083	£468.57
Delwedd Ltd	Cynyddu blwch post ymholiadau	1084	£12.96
CIPFA	Ffioedd proffesiynol 2010 ar gyfer Andrew Owen Williams (Swyddog Cyllid)	1085	£332.00
WPS Hallam	Premiwm yswiriant ychwanegol ar gyfer gliniaduron ac ati i weithio o gartref	1086	£28.19
Cyfanswm Atodlen B			£841.72

29. EITEM GAN AELOD: YMGYNGHORIAD TEITHIO LLES COVID Y RHYL

Hysbysodd y Cynghorydd B. Jones y cyfarfod o'r diffyg dealltwriaeth o gefndir y Cynllun Teithio Llesol yn y Rhyl gan ddau gynghorydd tref, a oedd wedi arwain at niweidio enw da'r Cyngor Tref wrth gyflwyno'r cynllun.

Ychwanegodd y Cynghorydd Jones bod Llywodraeth Cymru wedi cysylltu gyda Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn cynnig grant ar gyfer y gwaith, gyda swyddogion CSDd ond yn cael wythnos i ymateb. Mae wedi awgrymu, at y dyfodol, bod cynlluniau/prosiectau yn cael eu pennu a'u cyfateb gyda ffrydiau ariannu sydd ar gael wrth iddynt gael eu cynnig, fel eu bod yn barod i gychwyn.

Adroddodd bod CSDd wedi cyflwyno'r cynllun i Grŵp Ardal Aelodau'r Rhyl (MAG), lle cafodd ymateb da ac felly aeth ymlaen i'r cyfnod ymgynghori. Anfonodd CSDd e-bost at y Cyngor Tref yn unol â hynny. Unwaith roedd yr ymarfer ymgynghori wedi ei gwblhau, derbyniodd MAG y Rhyl gyflwyniad arno a'i gymeradwyo. Fel aelod o Gabinet CSDd roedd ef yna wedi ei lofnodi.

Teimlai'r Cynghorydd Jones nad oedd cynghorwyr sir a chynghorwyr tref y Rhyl yn canu'r un gân, nad oedd yn fai ar y cynghorwyr tref, ac a oedd yn dangos diffyg yn y sianeli cyfathrebu rhyngddynt.

Mwn ymateb i'r Cynghorydd Jones, dywedodd yr aelodau:

- Eu bod yn angyfforddus gyda'r Cynghorydd Jones yn siarad fel Cynghorydd Cyngor Sir Ddinbych ac nid fel Cynghorydd Cyngor Tref y Rhyl yng nghyfarfod heno.

- Roedd MAG y Rhyl yn grŵp cyfrinachol a oedd felly'n rhwystro Cyngorwyr Cyngor Tref y Rhyl rhag rhannu gwybodaeth gyda'u cyfatebwyr ar y Cyngor Tref, a bod hyn yn rhywbeth yr oedd cyngorwyr sir y Rhyl yn cwyno amdano yn rheolaidd.
- Roedd y Cyngor Tref wedi ei anwybyddu gan nad oedd Clerc y Dref wedi derbyn ebsot, ac mewn unrhyw achos, nid oedd un ebost heb unrhyw beth dilynol yn ffordd foddhaol o gyfathrebu gyda'r Cyngor Tref ar gynllun gyda lefel yr effaith yr oedd hwn yn ei gael yng nghanol y dref.
- Roedd y cynllun wedi dod gerbron MAG y Rhyl ar ddau achlysur, gyda'r cyntaf yn teimlo fel 'fait accompli' a'r ail yn achosi teimlad o anesmwythyd ynglŷn â pharhauster y peth.
- Roedd £12,000 arall ar gyfer Teithio Llesol ar y gorwel, ac na ddylid trin hwn gyda'r un cyflymder.
- Roedd cyngorwyr Cyngor Tref y Rhyl yn teimlo eu bod yn cael eu sarhau pan nad oeddynt bellach yn cael eu gwahodd / eu hymddiried i fynychu cyfarfodydd MAG.
- Roedd gan y Cyngorydd Jones efallai wrthdrawiad buddiannau fel aelod o Gabinet CSDd ac aelod o BID y Rhyl.

PENDERFYNWYD bod Clerc y Dref y cysylltu â Chadeirydd MAG y Rhyl i ofyn bod y cyngorwyr tref yn cael eu gwahodd i holl gyfarfodydd yn y dyfodol.

30. **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

31. **ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS**

Esboniodd Clerc y Dref yn fyr hanes y dyfarniad, sef yr uchaf y gallai'r Cyngor Tref ei roddi, a chyfeiriodd at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn nodi pedwar unigolyn a enwebwyd i'w hystyried.

Dywedodd aelod yr hoffai dynnu ei enwebiad yn ôl, gan fod yr unigolyn wedi marw ac ni ellid rhoi'r dyfarniad ar ôl marwolaeth.

Aeth y cyfarfod ati i ystyried y tri enwebiad arall yn eu tro.

Ar ôl pleidleisio, ni dderbyniodd yr ail enwebiad y lefel ofynnol o gefnogaeth ac felly roedd yn aflwyddiannus. Roedd y trydydd yn rhy agos i adlewyrchu lefel glir o gefnogaeth gan fod dau gynghorydd wedi gorfod gadael y cyfarfod yn ystod yr eitem.

PENDERFYNWYD gohirio'r trydydd a'r pedwerydd enwebiad tan gyfarfod mis Ionawr y Cyngor i'w hystyried.

32. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 2il Rhagfyr 2020, gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth ffurfiol i'r argymhellion cyllidebol a'r Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol pum mlynedd ac i godi praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/2022 a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, cymeradwyodd yr aelodau yr argymhellion a'r praesept a argymhellwyd o £553,611. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd o 0% yn gofyn am dâl o £57.68 ar gyfer Band D.

PENDEFYNWYD bod y Cyngor:

- (i) yn cymeradwyo a chodi praesept o £553,611 (Pum Cant a Phumdeg Tri o Filoedd, Chwe Chant ac Un-ar-ddeg o Bunnau) ar Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cychwyn 1af Ebrill 2021, a hysbysu Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny.
- (ii) yn cydnabod y cynnydd i gyflawni'r Cynllun Adfer Cronfeydd Wrth Gefn fel y nodwyd yn adroddiad Clerc y Dref.

33. EGWYL Y NADOLIG – DIRPRWYO PWERAU GWEITHREDOL

Gofynnodd Clerc y Dref am gymeradwyaeth yr aelodau o ran y trefniadau ar gyfer dirprwyo pwerau gweithredol i Glerc y Dref, mewn ymgynghoriad â chadeiryddion priodol yn ystod y cyfnod rhwng 17eg Rhagfyr 2020 a 16eg Ionawr 2021 fel a ganlyn:

Materion Dinesig	-	Maer a/neu Dirprwy Faer
Materion Cynllunio	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Pwyllgor CSG	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor CSG
Unrhyw fater arall	-	Cadeirydd a/neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

PENDERFYNWYD cadarnhau'r trefniadau.

34. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: